







Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Gweithredu ar Dlodi Plant

## Papur Ymgynghori

PLANT A PHOBL IFANC - GWEITHREDU'R HAWLIAU
CHILDREN AND YOUNG PEOPLE - RIGHTS TO ACTION

75% wedi'i ailgylchu
recycled

ISBN 978 0 7504 4736 2
© Hawlfraint y Goron Mehefin 2008
CMK-22-04-045(068)
D1020809

# Gweithredu ar Dlodi Plant
# Papur Ymgynghori

**Teitl y Ddogfen:** Gweithredu ar Dlodi Plant

**Y Gynulleidfa:** Awdurdodau Lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cydffederasiwn y GIG, Byrddau Iechyd Lleol, y Comisiynydd Plant a sefydliadau eraill sydd â diddordeb mewn tlodi plant.

**Trosolwg:** Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cyflwyno cynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gweithredu ar dlodi plant. Mae hyn yn cynnwys gwneud deddfwriaeth newydd i roi dyletswydd ar asiantaethau cyhoeddus mewn perthynas â thlodi plant, i ddarparu lleoedd gofal plant am ddim a gwasanaethau blynyddoedd cynnar eraill mewn mannau penodol, i gyfateb i ganllawiau darparu grant Cymorth ac i gyflwyno strategaeth i gefnogi plant sy'n agored i niwed. Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys Cytundeb ar y Cyd drafft gwirfoddol ar dlodi plant sy'n nodi ymrwymiad asiantaethau cyhoeddus i helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda'i hamcanion o ran tlodi plant.

**Gweithredu angenrheidiol:** Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad erbyn **30 Medi 2008** i'r cyfeiriad isod. Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cyhoeddi crynodeb o ymatebion i'r ddogfen hon. Fel rheol, mae enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr awdur yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych am gael eich enwi fel awdur yr ymateb, a fyddech cystal â nodi hynny'n glir yn eich ymateb.

**Mwy o wybodaeth:** Dylid cyfeirio ymatebion, ymholiadau a cheisiadau am gopïau caled o'r ymgynghoriad at:

Joanne Glenn
Uned Tlodi Plant
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful CF48 1UZ

Ffôn: 01685 729320
E-bost:Joanne.glenn@wales.gsi.gov.uk

**Dogfennau cysylltiedig:** Deddf Plant 2004, Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau, cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 31/2007, Medi 2007.

## CYNNWYS

Rhagarweiniad ... 3
Cynigion am Gytundeb ar y Cyd ar Dlodi Plant ... 5
Y Cytundeb ar y Cyd drafft ar Dlodi Plant ... 7
Y ddyletswydd tlodi plant ar asiantaethau cyhoeddus ... 13
Y ddyletswydd lleoedd gofal plant am ddim ... 15
Cymorth ... 17
ATODIAD ... 20
Cwestiynau ymgynghori ... 33
Y Cytundeb ar y Cyd ar Dlodi Plant ... 33
Y ddyletswydd tlodi plant ar asiantaethau cyhoeddus ... 33
Y ddyletswydd lleoedd gofal plant am ddim ... 33
Cymorth ... 33
Rhestr o'r Sefydliadau yr Ymgynghorwyd â Hwy ... 35

## Rhagarweiniad

1. Mae dileu tlodi a gwella cyfleoedd ein plant a'n pobl ifanc mewn bywyd ar frig rhestr flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i gael gwared ar dlodi plant erbyn 2020 a'i haneru (yn erbyn cyfradd 1997) erbyn 2010. Mae llawer o'r ffyrdd o gyflawni'r nod uchelgeisiol hwn yn nwylo Llywodraeth y DU. Yn ôl y dystiolaeth mae cynnydd da wedi'i wneud i leihau tlodi plant yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diweddar. Am y tro cyntaf mae cyfraddau tlodi plant wedi gostwng yn is na'r cyfartaledd ym Mhrydain. Yng Nghymru rhwng 1989 a 2006, fe wnaeth nifer y plant o gartrefi â'u hincwm yn is na 60 y cant o incwm canolrif 1998/99 (ar ôl costau cartref), sy'n parhau'n gyson mewn termau real, ostwng tua 100,000. Fodd bynnag, mae 28% o blant Cymru yn dal i fyw mewn cartrefi sydd â'u hincwm yn is na 60 y cant o'r canolrif a gwyddom fod llai o gynnydd wedi bod ar y tuedd hwn ar i lawr yn ddiweddar iawn.

2. Nodwyd polisi Llywodraeth y Cynulliad ar dlodi plant yn adroddiad y Grŵp Gorchwyl Tlodi Plant annibynnol (Mehefin 2004); Strategaeth Tlodi Plant, *Dyfodol Teg i'n Plant*, Chwefror 2005) a chan y cynigion a nodwyd yn y *Cynllun Cyflawni Tlodi Plant* (Mai 2006). Mae llawer o'r cynigion hyn wedi'u datblygu ymhellach. Mae'r rhain yn cynnwys cyhoeddi cerrig milltir a thargedau trawsbynciol penodol ar dlodi plant, prawfesur rhaglenni a pholisïau strategol ar dlodi plant o ran eu heffaith ar dlodi plant ac adolygu rôl rhaglen grant Cymorth. Mae dogfen *Cymru'n Un* yn nodi cynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru i greu cymdeithas deg a chyfiawn ac yn tanlinellu'r angen am bolisïau a rhaglenni trawsbynciol i fynd i'r afael â thlodi plant. Mae hyn yn nodi ymrwymiadau tlodi plant pellach, rai ohonynt wedi'u datblygu ymhellach, gan gynnwys sefydlu grŵp arbenigol. Darperir asesiad o gynnydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar fynd i'r afael â thlodi plant mewn Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ym mis Chwefror 2008. Mae'r Datganiad, a welir yn yr Atodiad i'r papur hwn, hefyd yn nodi rhaglenni polisi parhaol Llywodraeth y Cynulliad o ran tlodi plant.

3. Y prif ddarn o ddeddfwriaeth sydd yn ei le ar hyn o bryd i hyrwyddo'r agenda tlodi plant yw Deddf Plant 2004. Mae canllawiau *Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau* a gyhoeddwyd yn 2007[1]yn nodi rôl Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc wrth ddatblygu camau lleol i ymdrin â thlodi plant. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a'u partneriaid weithio gyda'i gilydd i ysgrifennu Cynllun Plant a Phobl Ifanc sy'n nodi eu gweledigaeth strategol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc, eu blaenoriaethau a'u targedau. Mae'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt

---

1 http://newydd.cymru.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/sharedplanningforbetteroutcomes?lang=we

mewn perthynas â gweithredu ar dlodi plant wedi'u nodi yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc o dan amcan craidd 7.

4. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ennill pwerau gwneud deddfwriaeth newydd drwy orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol y Plant Agored i Niwed a Thlodi Plant pan ddaw i rym.

5. Mae'r papur ymgynghori hwn yn nodi cynigion i wneud deddfwriaeth ar dri maes a fydd yn cyfrannu at raglen Llywodraeth y Cynulliad i roi terfyn ar dlodi plant:

   - Dyletswydd ar asiantaethau cyhoeddus i wneud a dangos eu cyfraniad i ddod â thlodi plant i ben.

   - Dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu lleoedd gofal plant am ddim a gwasanaethau blynyddoedd cynnar eraill mewn mannau penodol.

   - Dyletswyddau ar awdurdodau lleol a fydd yn cyfateb i ganllawiau darparu grant Cymorth.

6. Mae'r papur hefyd yn cynnwys cynnig ar gyfer cytundeb anstatudol ar dlodi plant rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru ac asiantaethau cyhoeddus.

## Cynigion am Gytundeb ar y Cyd ar Dlodi Plant

7. Rydym yn cynnig bod Llywodraeth Cynulliad Cymru ac asiantaethau cyhoeddus yn dangos eu hymrwymiad i ddod â thlodi plant i ben drwy lofnodi Cytundeb Tlodi Plant. Bydd hyn yn darparu cyd-destun i'r ddeddfwriaeth arfaethedig ar ddyletswydd tlodi plant. Bydd hefyd yn galluogi asiantaethau cyhoeddus yng Nghymru, na fydd y ddyletswydd ar asiantaethau cyhoeddus yn effeithio arnynt, i ymrwymo i ddangos eu bod nhw hefyd yn barod i weithio gyda Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â thlodi plant.

8. Rydym yn cynnig y dylid gwahodd yr holl asiantaethau cyhoeddus y byddai'r ddyletswydd tlodi plant yn berthnasol iddynt i lofnodi'r Cytundeb ar y Cyd:

    - Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol
    - Awdurdodau tân ac achub a gwasanaethau tân ac achub
    - Awdurdodau parciau cenedlaethol, lle maent wedi'u sefydlu
    - Byrddau Iechyd Lleol
    - Ymddiriedolaethau'r GIG
    - Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (CNLCau)

9. Hefyd, cynigiwn fod y sefydliadau canlynol hefyd yn cael eu gwahodd i lofnodi'r Cytundeb:

    - Sefydliadau sydd heb eu datganoli (er enghraifft Canolfan Byd Gwaith, Comisiwn Coedwigaeth, Heddluoedd)
    - Sefydliadau trydydd sector
    - Cynghorau tref a chymuned
    - Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf
    - Aelodau o Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc os nad ydynt eisoes wedi llofnodi'r Cytundeb

10. Mae'r Cytundeb ar y Cyd yn nodi ymrwymiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â thlodi plant a nifer o ffyrdd y gall sefydliadau helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant.

11. Datblygwyd y Cytundeb ar y Cyd yn ystod y naw mis diwethaf drwy drafodaethau eang â sefydliadau â diddordeb. Cymeradwywyd hwn hefyd gan Bwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc.

12. Nid ydym yn bwriadu monitro'r Cytundeb ar y Cyd. Y rheswm dros hynny yw ei fod yn wirfoddol ac felly nid oes disgwyl i sefydliadau adrodd am weithgareddau sy'n gysylltiedig â thlodi plant.

13. Cynigiwn fod y Cytundeb yn cael ei lofnodi yn ystod mis Hydref neu fis Tachwedd. Awgrymodd trafodaethau â rhanddeiliaid y gallai fod yn gyfleus i'r Cytundeb gael ei lofnodi gan sefydliadau trosfwaol lle bo hynny'n briodol, er enghraifft Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ran awdurdodau lleol, Cydffederasiwn y GIG ar ran ymddiriedolaethau'r GIG a byrddau iechyd lleol.

14. Gellir dod o hyd i Ddatganiad Ysgrifenedig 20 Chwefror 2008 ar dlodi plant yn yr Atodiad i'r papur ymgynghori hwn. Mae'n cynnig cyd-destun ehangach i'r polisi tlodi plant sy'n cael ei weithredu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd.

# Y Cytundeb ar y Cyd drafft ar Dlodi Plant

## Nod

1. Nod y Cytundeb ar y Cyd yw dangos y lefel uchel o gytundeb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau eraill i'r nod sydd ganddynt ar y cyd o ddileu tlodi plant.

## Cyd-destun Polisi

2. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gael gwared ar dlodi plant erbyn 2020 a'i haneru (yn erbyn cyfradd 1997) erbyn 2010. Mae llawer o'r ffyrdd o gyflawni'r nod uchelgeisiol hwn yn nwylo Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, erys llawer y gellir ei wneud i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru drwy weithredu ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n ofynnol cael gweithio mewn partneriaeth gref o fewn Llywodraeth y Cynulliad ei hunan ac â'i bartneriaid allanol.

3. Mae dogfen *Cymru'n Un* yn nodi cynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru i greu cymdeithas deg a chyfiawn ac yn tanlinellu'r angen am bolisïau a rhaglenni trawsbynciol i fynd i'r afael â thlodi plant. Nodwyd agenda Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gwella bywydau plant a phobl ifanc mewn nifer o ddogfennau allweddol. Mae *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau:* (Ionawr 2004) yn nodi ymrwymiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r Plentyn a gyfieithwyd i saith amcan craidd. Mae Amcan Craidd 7 yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru na ddylai unrhyw blentyn neu berson ifanc fod o dan anfantais oherwydd tlodi.

4. Nododd *Strategaeth Tlodi Plant* Llywodraeth Cynulliad Cymru (Chwefror 2005)[2] dair agwedd ar dlodi ar gyfer canolbwyntio'r gweithredu arnynt - tlodi incwm, tlodi cyfranogiad a thlodi gwasanaeth. Mae polisi hefyd wedi'i lunio gan *Gynllun Cyflawni Tlodi Plant*[3] (Mai 2006) a cherrig milltir cysylltiedig 2010 a phapur targedau 2020, *Cael Gwared ar Dlodi Plant - Mesur Llwyddiant*[4] (Hydref, 2006)

---

[2] http://new.wales.gov.uk/about/strategy/makingtheconnections/beechamreview/beechamrep?lang=en.

[3] http://new.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/strategicplans/implementplanphase1?lang=en
http://new.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/strategicplans/measuresuccess?lang=en

[4] http://new.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/childpoverty/strategy/measuresuccess/?lang=eng

5. Roedd Deddf Plant 2004 yn darparu deddfwriaeth ar gyfer Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc ac mae canllawiau yn nodi rôl Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc wrth ddatblygu camau lleol i ymdrin â thlodi plant. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a'u partneriaid weithio gyda'i gilydd i benderfynu ar weledigaeth strategol ar gyfer gwasanaethau, blaenoriaethau a thargedau i wella bywydau plant a phobl ifanc. Mae blaenoriaethau y cytunwyd arnynt mewn perthynas â gweithredu ar dlodi plant wedi'u nodi o dan Amcan Craidd 7 yn y Cynllun ond mae camau mewn adrannau eraill o'r cynllun sydd hefyd yn effeithio ar dlodi plant yn cael eu croesgyfeirio i Amcan Craidd 7.

6. Nod y *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru*[5] (Chwefror 2006) yw cyfrannu at gyflawni'r saith amcan craidd ar gyfer plant a phobl ifanc drwy wella ansawdd a lleihau amrywiadau wrth gyflwyno gwasanaethau drwy bennu safonau cenedlaethol. Pennwyd y safonau hyn nid yn unig ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ond hefyd ar gyfer gwasanaethau llywodraeth leol eraill sy'n cael dylanwad cryf ar iechyd a lles plant, megis addysg, tai, hamdden a thrafnidiaeth.

7. Strategaethau allweddol eraill sy'n chwarae rhan wrth ddiffinio dull Llywodraeth y Cynulliad o fynd i'r afael â thlodi plant yw'r *Cynllun Gweithredu Blas am Oes*[6] (Chwefror 2008), *Gweledigaeth Leol - canllawiau statudol ar ddatblygu a gweithredu strategaethau cymunedol* [7](Mawrth 2008), *Cynllun Gofodol* (Mawrth 2006)[8] *Cynllun Oes - Gwasanaeth Iechyd o'r Radd Flaenaf*[9] (Ebrill 2005), *Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan*[10] (Mehefin 2004) ac *Ymestyn Hawliau, cynorthwyo pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed yng Nghymru*[11] (Gorffennaf 2002). Yn ogystal â hyn, mae gan y *Fframwaith Strategol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus yng Nghymru*, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Blant a Phobl Ifanc.

8. Amlinellir asesiad o gynnydd Llywodraeth Cynulliad Cymru hyd yn hyn o ran mynd i'r afael â thlodi plant a'i gyfeiriad yn y dyfodol mewn Datganiad Ysgrifenedig (Chwefror 2008) a gyhoeddwyd gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.[12] Mae'r

---

5 http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/schools/339214-wag/key_documents/referred_throughout/nsf_children?lang=en

6 http://new.wales.gov.uk/dcells/publications/policy_strategy_and_planning/schools/2028741/appetiteforlifeactionplan2-e.pdf?lang=en

7 http://newydd.cymru.gov.uk/topics/localgovernment/publications/localvisionguidance/?lang=en

8 http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypublications/strategypubs/935751/?lang=en

9 http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypublications/strategypubs/935760/?lang=en

10 http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypublications/strategypubs/935794/?lang=en

11 http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/extending_entitlement/eepublications/youngpeopledirection?lang=en

12 http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-written-min-state.htm?act=dis&id=76410&ds=2/2008

Datganiad Ysgrifenedig yn nodi dull tair haen o fynd i'r afael â thlodi plant:

Haen 1 - Gwella cyfleoedd bywyd i blant a phobl ifanc difreintiedig;
Haen 2 - Mentrau cynhwysiant ariannol;
Haen 3 - Annog mwy o bobl i fanteisio ar gymorth treth a budd-daliadau Llywodraeth y DU.

9. O fis Tachwedd 2008 bydd cynnydd o ran y targedau tlodi plant trawsbynciol yn cael ei fesur gan Fonitor Lles Plant bob tair blynedd.

**Cyllid**

10. Eisoes cytunwyd ar y cyllid ar gyfer ymrwymiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru isod a chaiff ei gyflwyno fel rhan o raglenni sy'n bodoli ar hyn o bryd. Yn yr un modd bydd asiantaethau cyhoeddus yn defnyddio cyllidebau cyfredol i gyflwyno eu camau gweithredu ar dlodi plant.

**Ymrwymiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru**

11. Mae Datganiad Ysgrifenedig 2008 yn mynnu bod cael gwared ar dlodi a gwella cyfleoedd bywyd ein plant a phobl ifanc ar frig rhestr flaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad. Ond mae'n cydnabod bod mynd i'r afael â thlodi plant ym mhob ffordd yn gymhleth ac yn drawsbynciol. Yn y Datganiad Ysgrifenedig nodir rhaglen waith manwl a roddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei lle i fynd i'r afael â thlodi plant.

12. Er mwyn helpu i gyrraedd nod 2020 o gael gwared ar dlodi plant a rhoi cyfeiriad strategol i sefydliadau eraill yng Nghymru ar dlodi plant, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i:

- Ddarparu arweiniad a chyfeiriad strategol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru tuag at y nod o fynd i'r afael â thlodi plant ac yn y pen draw gael gwared arno.
- Cynnal Pwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc er mwyn gwneud yn siŵr bod cyfrifoldebau trawsbynciol dros blant a phobl ifanc, gan gynnwys mewn perthynas â thlodi plant, yn cael eu cydgysylltu'n effeithiol ar draws llywodraeth.
- Cydweithio'n agos ag adrannau eraill Llywodraeth y DU er mwyn dod o hyd i atebion ar y cyd i gyrraedd ein hamcanion tlodi plant drwy waith Fforwm y Pedair Gwlad ar Dlodi Plant.
- Gweithredu'r Strategaeth Tlodi Plant, *Dyfodol Teg i'n Plant* drwy ganolbwyntio polisïau a rhaglenni ar wrthsefyll tlodi incwm, tlodi cyfranogiad a thlodi gwasanaeth.
- Sicrhau bod y cynigion polisi a nodir yn y *Cynllun Gweithredu Tlodi Plant* yn cael eu datblygu ymhellach fel rhan o weithredu ehangach i fynd i'r afael â thlodi plant.

- Monitro cynnydd yn erbyn cerrig milltir a thargedau yn *Cael gwared ar Dlodi Plant yng Nghymru - Mesur Llwyddiant* drwy Fonitor Lles Plant Cymru o 2008.
- Cefnogi'r Grŵp Arbenigol ar Dlodi Plant i fonitro'r targedau a rhoi cyngor sy'n seiliedig ar dystiolaeth i Lywodraeth y Cynulliad ar y gofynion polisi ehangach, ychwanegol sy'n angenrheidiol er mwyn bodloni'r targedau, gan ddefnyddio tystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol.
- Cyflwyno strategaeth cynhwysiant ariannol i sicrhau dull integredig o hyrwyddo incwm teuluol.
- Datblygu a gweithredu cyfres gydlynol o bolisïau, rhaglenni a chynlluniau grant unigol sy'n cyfrannu at leihau tlodi a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau effeithiolrwydd parhaol wrth i gyllid gael ei brif ffrydio fel rhan o grantiau parhaol.
- Sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i heriau ac anghenion plant a phobl ifanc mewn ardaloedd gwledig a bod sylw'n cael ei roi iddynt.
- Sicrhau bod dull o weithredu cydlynol Llywodraeth y Cynulliad a gweithredu ar y cyd lleol yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynlluniau Plant a Phobl Ifanc sy'n dangos yn effeithiol y cynnydd yn erbyn mesurau canlyniadol Amcan Craidd 7 - mae rhai o'r rhain i'w datblygu eto.
- Monitro, gwerthuso a darparu trosolwg strategol o'r *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru*.
- Cefnogi'r dysgu parhaus o'r prosiect a arweinir gan Achub y Plant a sefydlwyd i gefnogi camau gweithredu i leihau tlodi plant ar lefel leol.
- Gweithio gydag asiantaethau heb eu datganoli sy'n gweithredu o fewn Cymru i ddylanwadu ar eu polisïau er mwyn iddynt hwy hefyd flaenoriaethu gwaith i gael gwared ar dlodi plant.

## <u>Ymrwymiadau sefydliadau eraill</u>

13. Mae amrywiaeth eang o sefydliadau yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid eraill i leihau tlodi plant yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau'r GIG, byrddau iechyd lleol, yr heddlu, y gwasanaethau tân ac achub, cynghorau tref a chynghorau cymuned a sefydliadau trydydd sector. Mae llawer o'r rhain yn gweithio gyda'i gilydd drwy'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, Byrddau Gwasanaeth Lleol neu Bartneriaethau Cynllunio Cymunedol i sicrhau dull cyfannol o ymdrin â thlodi plant. Mae nifer o sefydliadau eisoes wedi ymrwymo i ddyletswyddau statudol presennol sy'n effeithio ar fynd i'r afael â thlodi plant.[13] Y nod yw sicrhau bod yr holl sefydliadau cyhoeddus sy'n llywio canlyniadau plant sy'n byw mewn tlodi yn cydweithio i flaenoriaethu eu hanghenion.

---

[13] Er enghraifft Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles; Byrddau Lleol Diogelu Plant; Cynlluniau Datblygu Lleol; Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol

14. Mae llofnodwyr yn cytuno bod y gweithgareddau canlynol yn rhoi cyfle i sefydliadau, lle bo'n briodol, helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu'r dull 3 haen o ymdrin â thlodi plant a amlinellir yn Natganiad Ysgrifenedig 2008.

<u>Haen 1: Gwella cyfleoedd bywyd i blant a phobl ifanc difreintiedig</u>

- Sicrhau, cyn belled â phosibl, bod y polisïau a'r mentrau a ddatblygwyd gan y sefydliad yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi.
- Datblygu, monitro a gwerthuso mentrau a fydd yn gwella canlyniadau i'r plant a'r bobl ifanc hynny sy'n byw mewn tlodi yn unol â gofynion polisi presennol.[14]
- Monitro a gwella nifer y plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi ac yn cymryd rhan mewn cynlluniau neu fentrau sy'n agored i bob plentyn a pherson ifanc.
- Darparu hyfforddiant a datblygiad i staff priodol sy'n ymwneud â gwaith allgymorth fel y gallant ddeall anghenion plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi ac ymateb i'r anghenion hynny.
- Sicrhau bod sefydliadau yn weladwy ac yn hygyrch i'r gymuned, gan felly annog integreiddio â phlant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi a'u hannog i gymryd y cyfleoedd a ddarperir gan y sefydliad.
- Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu ac asesu strategaethau priodol er mwyn sicrhau bod strategaethau o'r fath yn addas i'r diben, a bod y plant a'r bobl ifanc eu hunain yn elwa o'u cyfranogiad.
- Blaenoriaethu ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf mewn rhaglenni blynyddol tra'n cydnabod bod pocedi o amddifadedd mewn mannau eraill yn yr ardaloedd lleol
- Sicrhau y gall plant a phobl ifanc gael mynediad i wasanaethau sy'n hybu iechyd a lles ac yn osgoi iechyd gwael.
- Lleihau nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n ddigartref neu'n byw mewn llety anaddas.
- Cymryd camau fel sefydliad a gweithio gyda theuluoedd plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi i'w helpu i fyw bywydau mwy diogel.
- Cefnogi partneriaid i'w helpu i fodloni eu hamcanion tlodi plant.

<u>Haenau 2 a 3: Cynhwysiant ariannol a mwy o bobl yn manteisio ar gymorth treth a budd-daliadau Llywodraeth y DU</u>

- Sicrhau bod mwy o bobl yn manteisio ar y budd-daliadau a chredydau treth sy'n ddyledus iddynt.

---

[14] Er enghraifft yn eu datblygiad personol; drwy eu helpu i ddysgu sgiliau a fydd yn gwella eu cyfleoedd bywyd yn y dyfodol; a fydd yn helpu i atal iechyd gwael a gwneud y gorau o botensial cynlluniau statudol presennol.

- Sicrhau bod prosesau gweinyddu budd-daliadau i deuluoedd â phlant yn effeithlon ac yn effeithiol, gan ddefnyddio arferion gorau sydd ar gael mewn mannau eraill.
- Sicrhau bod gweithgareddau strwythuredig wedi'u darparu am ddim i bob plentyn a pherson ifanc, a fydd o fantais yn arbennig i'r rheini sy'n byw mewn tlodi[15]
- Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i adnabod pan fydd plant a phobl ifanc yn byw mewn tlodi incwm a chynghori teuluoedd (drwy system gyfeirio anffurfiol) pa asiantaethau fydd yn gallu helpu i leihau lefel y tlodi.
- Hyrwyddo mentrau a fydd yn helpu lles ariannol teuluoedd gan gynnwys sicrhau bod gan bobl y sgiliau priodol yn eu lle a darparu hyfforddiant i helpu i gynyddu lefelau sgiliau.
- Datblygu dulliau recriwtio a chynnig cyfleoedd gweithio a fydd yn fantais i rieni plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi.
- Annog a rhoi cyhoeddusrwydd i fentrau sy'n lleihau costau addysg.[16]
- Cynnal ymchwil a gwerthusiad i weld sut y gall plant a phobl ifanc gael eu codi allan o dlodi gan felly gynhyrchu sail tystiolaeth y gellid ei defnyddio i ddylanwadu ar ddatblygiad polisi.

**Mae'r sefydliadau canlynol wedi llofnodi'r cytundeb hwn [i'w gwblhau yn dilyn ymgynghoriad]**

[15] Er enghraifft cynlluniau chwarae gwyliau haf, clybiau gwaith cartref, clybiau ieuenctid, mynediad i chwaraeon a gweithgareddau eraill.
[16] Gallai mentrau gynnwys datgan mai dim ond cyfraniadau gwirfoddol sy'n ofynol ar gyfer tripiau ysgolion, gan gynnig grantiau i dalu am ddeunydd ar gyfer gwaith cwrs a gwisg ysgol.

## Y ddyletswydd tlodi plant ar asiantaethau cyhoeddus

15. Yn unol â'r ymrwymiad yn *Cymru'n Un* rydym yn cynnig cyflwyno dyletswydd gyffredinol ar asiantaethau cyhoeddus i'w gwneud yn ofynnol iddynt wneud ac arddangos eu cyfraniad i roi terfyn ar dlodi plant. Rydym yn cynnig ei bod yn ofynnol i asiantaethau cyhoeddus ystyried tlodi plant wrth gyflawni eu swyddogaethau. Rydym yn cydnabod bod Deddf Plant 2004 eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau'r GIG, byrddau iechyd lleol, sefydliadau diogelwch cymunedol a sefydliadau gwirfoddol i weithio gyda'i gilydd i gynhyrchu Cynllun Plant a Phobl Ifanc 3 blynedd sy'n nodi camau i fynd i'r afael â thlodi plant yn lleol. Bwriad y ddeddfwriaeth hon yw sicrhau bod gan **bob** asiantaeth gyhoeddus yng Nghymru ddyletswydd ddeddfwriaethol i ystyried tlodi plant wrth gyflawni eu swyddogaethau. Nid yw'n fwriad cyflwyno dyletswyddau ychwanegol mewn perthynas â thlodi plant ar y sefydliadau hynny y mae'n ofynnol iddynt eisoes gymryd camau o dan y Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

16. Byddai pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn caniatáu i'r ddyletswydd hon fod yn gymwys i asiantaethau cyhoeddus yn unig. Ni allai fod yn gymwys, er enghraifft, i sefydliadau trydydd sector neu gyrff sector cyhoeddus. Ar hyn y bryd rydym yn cynnig y byddai'n gymwys i'r sefydliadau canlynol, fel isafswm:

    - Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol
    - Awdurdodau tân ac achub a gwasanaethau tân ac achub
    - Awdurdodau parciau cenedlaethol, lle maent wedi'u sefydlu
    - Byrddau Iechyd Lleol
    - Ymddiriedolaethau'r GIG
    - Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (CNLCau)

17. Rydym yn cydnabod bod nifer o gyrff cyhoeddus yng Nghymru eisoes yn gwneud llawer i wrthsefyll tlodi plant yn eu hardaloedd. Rydym o'r farn y bydd rhoi'r ddyletswydd tlodi plant ar sylfaen statudol ar gyfer y sefydliadau hyn yn creu mwy o eglurder a chysondeb ar draws cyrff o'r fath i Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac y bydd y cyhoedd yn gallu asesu sut mae pob un wedi dangos ei ymrwymiad i roi terfyn ar dlodi plant. Nid ydym yn bwriadu pennu sut y cyflawnir y swyddogaeth. Mae hyn oherwydd y bydd y Cytundeb ar y Cyd ar Dlodi Plant, y gobeithiwn fydd yn cael ei lofnodi gan asiantaethau cyhoeddus yr effeithir arnynt gan y Mesur, yn darparu fframwaith o weithgareddau a fydd yn galluogi sefydliadau i ddangos eu hymrwymiad i roi terfyn ar dlodi plant. Mae cynllun peilot a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu adnodd ar-lein a fydd yn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu

blaenoriaethau tlodi plant.

18. Rydym yn ystyried gosod fframwaith eang o gwmpas y ddyletswydd hon, er enghraifft sicrhau bod asiantaethau cyhoeddus yn hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng plant sy'n byw mewn tlodi a'r rhai hynny nad ydynt yn byw mewn tlodi; yr angen i hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at blant sy'n byw mewn tlodi a'r angen i annog plant sy'n byw mewn tlodi i gymryd rhan mewn gwasanaethau a ddarperir gan yr asiantaeth gyhoeddus.

19. Rydym hefyd yn cynnig cyflwyno, fel rhan o ddeddfwriaeth dyletswydd tlodi plant, pŵer wrth gefn i wneud rheoliadau er mwyn sicrhau bod asiantaethau cyhoeddus yn ystyried tlodi plant wrth gyflawni eu swyddogaethau. Byddai hyn yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno deddfwriaeth fwy penodol os ystyrid, er enghraifft, fod angen fframwaith cyfreithiol tynnach ar asiantaeth gyhoeddus benodol am iddi fethu â rhoi ystyriaeth i dlodi plant yn ei gwaith. Gellid defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau hefyd os byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru, dros gyfnod o amser, yn dymuno cyflwyno dyletswyddau mwy penodol nag a ganiateid yn y ddeddfwriaeth gyntaf, er enghraifft cyfeirio asiantaeth gyhoeddus benodol i gyflawni rhai camau i fynd i'r afael â thlodi plant. Yn yr un modd, gellid defnyddio'r pŵer pe byddai Llywodraeth y Cynulliad yn penderfynu rhoi cyllid ychwanegol i asiantaeth gyhoeddus benodol ac yna defnyddio'r pŵer hwn i nodi sut y dylid defnyddio'r cyllid mewn perthynas â thlodi plant.

20. Rydym hefyd yn bwriadu cyflwyno pŵer wrth gefn i gyhoeddi canllawiau i asiantaethau cyhoeddus i'w cynghori ar sut i gyflawni eu swyddogaethau i ystyried tlodi plant.

21. Rydym yn bwriadu monitro effeithiolrwydd y ddyletswydd tlodi plant yn unol â'r arolygiad o'r Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc. Mae *Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau* yn cynnig y bydd arolygiaethau a chyrff rheoleiddio yn cydweithio i ddatblygu protocolau a chynllunio gwaith i archwilio a gwerthuso effeithiolrwydd gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc. Byddai'r ddyletswydd hefyd yn golygu gofyniad i fonitro a gwerthuso gweithgareddau ac i adrodd ar y ddarpariaeth i Weinidogion Cymru yn unol â gofynion presennol Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc.

22. Ni fydd cyllid ychwanegol ar gael i asiantaethau cyhoeddus gyflawni'r ddyletswydd hon. Y rheswm dros hynny yw nad ydym yn bwriadu rhoi mwy o alwadau ar asiantaethau cyhoeddus sydd â dyletswydd eisoes o dan y Ddeddf Plant i gymryd camau ar dlodi plant ac sydd eisoes wedi cael cyllid i gyflawni'r gwaith hwn. Yn yr un modd mae'n ofynnol hefyd ar hyn o bryd i CNLCau weithredu ar dlodi plant er nad yw hyn wedi bod ar sail statudol yn flaenorol.

## Y ddyletswydd lleoedd gofal plant am ddim

23. Mae *Cymru'n Un* wedi ymrwymo i ddatblygu ymhellach y ddarpariaeth o ofal plant fforddiadwy yn gyffredinol ac yn arbennig gofal plant am ddim o ansawdd uchel i blant dwy oed mewn ardaloedd lle mae'r angen fwyaf.

24. Mae'r amcan cyntaf o saith Amcan Craidd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc, sy'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn ymrwymiad i sicrhau bod pob plentyn yn cael dechrau teg mewn bywyd. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod y dystiolaeth rymus y gall gwasanaethau blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel gael effaith sylweddol ar y canlyniadau i blant, gan felly ddarparu ffordd allan o dlodi.

25. Rhaglen Dechrau'n Deg yw ein mecanwaith cyflawni ar gyfer ymrwymo i ofal plant am ddim i blant dwy oed. Mae'r lleoedd gofal plant yr ydym yn eu darparu ar hyn o bryd mewn ardaloedd difreintiedig penodol yn mynd ochr yn ochr â chefnogaeth ymwelwyr iechyd â llwyth achosion isel, mynediad i raglenni rhianta a werthuswyd yn dda a rhaglenni Iaith a Chwarae.

26. Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen a ariennir drwy grant penodol i awdurdodau lleol. Nid oes gennym gynlluniau cyfredol i newid y trefniant ariannu, ond dymunwn ddangos ein hymrwymiad hirdymor i'r cynllun drwy wneud deddfwriaeth sy'n ei gefnogi.

27. Felly bwriadwn ddeddfu fel bod gofyniad ar awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth gofal plant am ddim i blant dwy flwydd oed. Byddai'r gofyniad hwn yn debyg i'r trefniadau sy'n darparu ar gyfer lleoedd addysg am ddim i blant tair oed, er na fyddai'r lleoedd gofal plant i rai dwy flwydd oed yn cael eu darparu'n gyffredinol i bawb. Byddai newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i bennu mewn is-ddeddfwriaeth y meini prawf ar gyfer darparu gofal plant am ddim mewn ardaloedd targed difreintiedig; nifer yr oriau bob wythnos, amserau'r tymhorau, oedran y plant a sut y dylai awdurdodau lleol bennu ardaloedd targed ar gyfer y ddarpariaeth hon. Ar hyn o bryd, o fewn canllawiau Dechrau'n Deg darperir y gofal plant i blant o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn ddwy oed am dri thymor; 12.5 awr yr wythnos, 42 wythnos y flwyddyn, o fewn ardaloedd targed difreintiedig y cytunwyd arnynt â Llywodraeth y Cynulliad.

28. Bydd y gwasanaethau eraill a ddarperir gan Dechrau'n Deg yn cael eu hategu yn yr un modd: rydym am sicrhau mewn ardaloedd penodol bod gwasanaethau ymwelwyr iechyd yn cael eu cynnal gyda'r gymhareb uchaf rhwng ymwelwyr iechyd sy'n ymweld â'r grŵp oedran 0-3 a'r plant a wasanaethant (1:110 ar hyn o bryd), a bod dosbarthiadau rhianta yn cael eu darparu yn yr ardaloedd hyn ynghyd â chymorth

cynnar ar gyfer llythrennedd.

29. Byddai angen i ddeddfwriaeth newydd gynnwys trefniadau i Lywodraeth y Cynulliad gyhoeddi canllawiau ar gyflwyno'r gwasanaethau blynyddoedd cynnar hyn o ansawdd uchel, a threfniadau ar gyfer arolygu'r modd y mae awdurdodau lleol yn cyflawni'r ddyletswydd.

30. Mae grantiau Dechrau'n Deg i awdurdodau lleol yn gwneud cyfanswm o £27 miliwn yn 2008-09, ac amcangyfrifir y byddant yn codi i £31 miliwn yn 2010-11. Rhagwelwn y bydd y cyllid hwn yn ddigon i fodloni’r gofynion cyfreithiol a fydd yn cael eu rhoi yn eu lle.

## Cymorth

31. Cymorth - y Gronfa Gymorth i blant a Phobl Ifanc - yw un o brif ysgogwyr Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â thlodi plant. Mae'n cydnabod bod gwaith o ansawdd dda gyda phlant a theuluoedd yn gallu lliniaru profiad tlodi a gall newid canlyniadau er gwell.

32. Fe'i cyflwynwyd yn 2003 i ddisodli nifer o fentrau a oedd yn bodoli eisoes. Gweinyddir Cymorth drwy'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc ym mhob ardal Awdurdod Lleol a dosberthir cyllid i ddiwallu anghenion a blaenoriaethau lleol. Darperir £51.7 miliwn y flwyddyn i'r awdurdodau lleol.

33. Mae Cymorth wedi gweithredu fel catalydd, gan gefnogi Partneriaethau wrth iddynt weithio gyda'i gilydd mewn ffyrdd arloesol er lles plant a phobl ifanc, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig. Ymysg prosiectau Cymorth mae gwaith blynyddoedd cynnar, hybu iechyd, chwarae, cefnogi ymgysylltiad pobl ifanc a'u cyfranogiad.

34. Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad yn 2006 ei bwriad i ddefnyddio pwerau newydd y Cynulliad i gyflwyno newid i'r ddeddfwriaeth sylfaenol, a allai ategu'r egwyddorion a gefnogir gan Cymorth. Byddai hyn yn adeiladu ar Ddeddf Gofal Plant 2006, a ddisodlodd gweithgareddau Cymorth ym maes gofal plant a gwybodaeth i deuluoedd â dyletswyddau statudol. Mae ein dealltwriaeth o effaith Cymorth yn cael ei lywio hefyd gan werthusiad o bwys sy'n digwydd. Bydd y gwerthusiad hefyd yn dylanwadu ar batrwm newid deddfwriaethol.

35. Bwriad y newidiadau deddfwriaethol yw symud y gorau o arferion Cymorth i'r brif ffrwd. Unwaith y bydd y ddeddfwriaeth yn ei lle bydd cyllid Cymorth yn symud i setliad refeniw llywodraeth leol, mewn tri cham dros y tair blynedd yn dechrau Ebrill 2011.

36. Yn ôl canllawiau Cymorth mae'n ofynnol i'r gwaith berthyn i bum thema (nid yw chweched thema, gofal plant, yn rhan o Cymorth erbyn hyn). Dyma nhw:

- Cefnogi teuluoedd
- Gwella Iechyd
- Chwarae, hamdden a chyfoethogi
- Ymrymuso, cyfranogi a dinasyddiaeth fywiog
- Hyfforddi, mentora a gwybodaeth

37. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn nodi "themâu prosesu" - egwyddorion sylfaenol ar gyfer y gwaith. Dyma nhw:

- Canolbwyntio ar gymdogaethau difreintiedig ac yn arbennig ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf
- Gweithio mewn Partneriaeth
- Cyfranogiad defnyddwyr
- Ychwanegu gwerth i wasanaethau prif ffrwd
- Ymyrraeth ataliol gynnar
- Cyflenwi o ganolfannau a rhwydweithiau integredig
- Cynhwysiant
- Ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth

38. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi y dylai prosiectau yn enwedig dargedu plant a phobl ifanc sydd ag anghenion uwch na'r gofynion cyffredinol, ond yn is na'r trothwyon ymyrraeth mewn argyfwng, er mwyn osgoi'r angen am yr ymyriadau hyn.

39. Rydym yn argymell tair dyletswydd newydd i awdurdodau lleol, sy'n unigryw i Gymru, i gefnogi'r themâu hyn:

- Dyletswydd newydd i gymryd camau a fydd yn gostwng anghydraddoldebau canlyniad i bob plentyn a pherson ifanc.
- Dyletswydd newydd i sicrhau bod digon o gyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc.
- Dyletswydd newydd i hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc.

40. Byddai'r cyntaf o'r rhain, sef gostwng anghydraddoldebau canlyniad, yn sefydlu egwyddorion cefnogi teuluoedd, gwella iechyd, a hyfforddi, mentora a themâu gwybodaeth. Mae pob un o'r themâu hyn yn rhai "ataliol" ond hoffem weld y ddeddfwriaeth wedi'i seilio ar hyrwyddo'r cadarnhaol, yn ogystal ag osgoi canlyniadau negyddol.

41. Gall y ddyletswydd newydd hon felly gefnogi gwaith Llywodraeth y Cynulliad yn dylunio Fframwaith Canlyniadau trawsbynciol;

42. Yn ôl Cymorth mae'n ofynnol canolbwyntio gwaith prosiect ar ardaloedd difreintiedig, ac yn arbennig ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae canllawiau Cymorth wedi'i gwneud yn ofynnol i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc gydweithio'n agos â phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf lleol. Mae Cymunedau Nesaf yn rhagweld y bydd Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn parhau i chwarae rôl allweddol yn mynd i'r afael â Thlodi Plant a dylai awdurdodau lleol weithio gyda nhw i ddyfeisio mentrau a'u datblygu ymhellach. Fodd bynnag, mae daearyddiaeth pob awdurdod lleol yn bendant, ac wrth fframio deddfwriaeth yn yr hirdymor mae'n briodol cydnabod yr angen i awdurdodau lleol fabwysiadu strategaeth wedi'i thargedu sy'n gweithio yn eu hardal, er ei bod yn seiliedig ar dystiolaeth megis Mynegrif

Amddifadedd Lluosog Cymru a'r Mynegrif Tlodi Plant newydd. Felly rydym yn cynnig y bydd y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu sut y mae tlodi ac anghydraddoldeb yn cael eu crynhoi'n ofodol, ac i gymryd crynhoad o'r fath i ystyriaeth wrth leihau anghydraddoldeb canlyniad i blant a phobl ifanc.

43. Mae prosiectau chwarae a chyfranogiad Cymorth yn datblygu hawliau plant a phobl ifanc fel y'u cynhwysir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

44. Gall dyletswydd newydd i sicrhau bod digon o fynediad i chwarae fynd yn ehangach na darparu cyfleusterau chwarae fel cyfarpar sefydlog neu gynlluniau wedi'u staffio. Dangosodd ein Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae sut y gall hybu chwarae fod â goblygiadau o ran defnydd o'r tir, addysg neu gynllun strydoedd. Ni fyddai'n realistig inni ddeddfu bod yn rhaid bodloni holl ddyheadau'r gymuned ar gyfer darpariaeth chwarae. Fodd bynnag, gallwn sefydlu gwaith rhagorol Cymorth yn datblygu dealltwriaeth o chwarae plant a phobl ifanc, archwilio'r ddarpariaeth chwarae a chreu strategaethau lleol. Bydd angen i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddynt i gywiro diffygion lleol yn y ddarpariaeth chwarae a gaiff eu hamlygu gan yr archwiliad. Dylent sicrhau yn enwedig bod plant anabl yn cael eu cynnwys yn y mynediad i chwarae. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn helpu i roi sylw i'r brif flaenoriaeth i blant a phobl ifanc pan ymgynghorir â hwy - i gael gwell cyfleoedd i chwarae.

45. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi arwain o ran eirioli cyfranogiad plant a phobl ifanc yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy. Mae arian Cymorth wedi galluogi cyflogi gweithwyr a all gefnogi ymgysylltiad plant a phobl ifanc, yn yr ysgol, mewn cysylltiad ag asiantaethau statudol eraill, yn natblygiad polisïau cymunedau, ac wrth gynllunio gwasanaeth. Mae’r arian ar gael i gefnogi cyflwyno Strategaethau Cyfranogiad lleol, y cynhyrchwyd Canllawiau ar gyfer eu gweithredu o 1 Ebrill 2008.

46. Wrth hybu chwarae a chyfranogiad bydd ein deddfwriaeth newydd yn galluogi creu canllawiau statudol a safonau gofynnol cenedlaethol. Rydym eisoes yn datblygu canllawiau a safonau cenedlaethol ar gyfer chwarae, ac eisoes wedi cyhoeddi, ar sail anstatudol, ganllawiau ar ddatblygu strategaethau cyfranogiad, a safonau cenedlaethol ar gyfranogiad. Byddem yn rhagweld y bydd archwiliadau rheolaidd yn erbyn safonau gofynnol cenedlaethol yn cryfhau'r adrannau perthnasol o'r Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Plant 2004.

47. Byddai is-ddeddfwriaeth yn nodi’r trefniadau manylach ar gyfer datblygu’r strategaethau hyn.

# ATODIAD

Datganiad Ysgrifenedig 20 Chwefror 2008 ar Dloci Plant gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwrw ymlaen ag agenda drawsbynciol ar gyfer gwella bywydau plant a phobl ifanc, agenda sy'n seiliedig ar waith partneriaeth ac ar weithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'n ofynnol i'n holl bolisïau a'n rhaglenni ar gyfer plant a phobl ifanc gyfrannu at saith nod craidd sy'n crynhoi'r hawliau hyn. Nod Craidd 7 yw ein bod yn sicrhau na fydd plant a phobl ifanc yng Nghymru dan anfantais oherwydd tlodi.

Mae dileu tlodi a gwella'r cyfle a gaiff ein plant mewn bywyd ar frig rhestr o flaenoriaethau Cabinet Llywodraeth y Cynulliad ac yn flaenoriaeth i minnau yn rhinwedd fy swydd fel y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

Mae mynd i'r afael â'r holl fathau o dlodi plant yn waith cymhleth a thrawsbynciol. I'w gyflawni mae angen gweithio'n dda mewn partneriaethau allanol, gyda Llywodraeth y DU a gyda'r sectorau cyhoeddus a phreifat, yn ogystal ag o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hun.

Targedau Llywodraeth y DU yw haneru tlodi plant erbyn 2010/11 a'i ddileu erbyn 2020. Cymerwyd camau breision yn hyn o beth gan fod 600,000 yn llai o blant yn byw mewn tlodi cymharol yn y DU yn 2005/06 nag yn 1998/99. Bydd y pecyn o ddiwygiadau i'r system dreth a budd-daliadau personol a amlinellwyd yng Nghyllideb y DU yn 2007 yn helpu i godi 200,000 o blant eraill o dlodi erbyn 2008/9. Hefyd, bydd y mesurau a amlinellwyd yn PBR/CSR mis Hydref 2007 yn golygu y bydd nifer y plant mewn tlodi yn gostwng 100,000 arall.

Er bod nifer sylweddol o'r dulliau allweddol o fodloni'r targedau tlodi plant yn gyfyngedig i San Steffan, rwy'n benderfynol bod Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i wneud popeth o fewn ei gallu i gyrraedd ein hamcanion tlodi plant ar y cyd, fel y gallwn barhau i wneud cyfraniad sylweddol i wella'r cyfleoedd a gaiff ein plant mwyaf difreintiedig mewn bywyd, ac adeiladu fwy fyth ar hynny.

**Yr Hyn a Wnaed Hyd Yma**

Dengys tystiolaeth ein bod wedi cymryd camau breision yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r cyfraddau tlodi ar gyfer plant wedi gostwng i lefel sy'n is na chyfartaledd Prydain Fawr am y tro cyntaf. O'r dadansoddiad o ystadegau budd-daliadau plant gwelwn fod nifer y plant mewn cartrefi sydd ag incwm sy'n is na 60 y cant o ganolrif incwm 1998/99 (ar ôl costau tai), a arhosodd yn gyson mewn termau real, wedi gostwng tua 100,000 yng Nghymru rhwng 1989 a 2006. Ond nid dyma'r amser i laesu dwylo. Mae 28% o blant Cymru yn dal yn byw mewn cartrefi sydd ag incwm o dan 60 y cant o'r canolrif ac rydym yn gwybod na symudwyd ymlaen gystal yn ddiweddar.

Cafodd polisi Llywodraeth y Cynulliad yn y maes hwn ei lunio yn y blynyddoedd diweddar gan adroddiad y Grŵp Gorchwyl annibynnol ar Dlodi Plant ym mis Mehefin 2004; ein Strategaeth Tlodi Plant, ‘Dyfodol Teg i’n Plant’, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2005 a chan y cynigion yn y Cynllun Cyflawni ar Dlodi Plant, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2006. Aethpwyd i’r afael â nifer o’r cynigion. Yn eu plith roedd cyhoeddi cerrig milltir trawsbynciol a thargedau penodol ar dlodi plant, prawfesur polisïau a rhaglenni strategol o ran eu heffaith ar dlodi plant ac adolygu rôl y rhaglen grant Cymorth. Cafodd cynigion eraill eu cynnwys yn ein cytundeb ‘Cymru’n Un’ ac mae’r gwaith yn dal ar y gweill.

Yr wyf i a’m cydweithwyr yn y Cabinet yn llwyr sylweddoli bod angen parhau i adeiladu ar ein hymdrechion yng Nghymru. Yr ydym eisoes wedi sicrhau bod gan Lywodraeth y Cynulliad amrywiaeth o raglenni a pholisïau a anelwyd at fynd i’r afael â thlodi ymysg plant ac mae buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar yn parhau’n nodwedd gref o’r drydedd Lywodraeth hon. Serch hynny mae angen i ni wneud yn siŵr bod y polisïau hyn yn gweithio a’u bod yn cael eu prawfesur i gyflawni’r gwelliannau ychwanegol sydd eu hangen.

**Cyfeiriad yn y Dyfodol**

Bydd gweithredu yn y dyfodol yn canolbwyntio ar dri maes:

- Maes 1 - Gwella’r cyfleoedd a gaiff plant difreintiedig mewn bywyd;
- Maes 2 - Mentrau cynhwysiant ariannol; a
- Maes 3 - Annog mwy i fanteisio ar gymorth Llywodraeth y DU o ran trethi a budd-daliadau.

**Maes 1 - Gwella'r Cyfleoedd a Gaiff Plant Difreintiedig Mewn Bywyd**

Wrth fynd i’r afael â thlodi ymysg plant yr ydym yn cydnabod mai pur anaml y mae plant a phobl ifanc yn ddifreintiedig mewn dim ond un o’u profiadau mewn bywyd. I roi’r dechrau gorau mewn bywyd i’n plant a’n pobl ifanc mwyaf agored i niwed rhaid i ni fedru adnabod y rhai sydd dan yr anfantais fwyaf ac ymyrryd yn effeithiol ac yn gynnar yn eu bywydau i hyrwyddo’u cyfleoedd ac i liniaru’r rhwystrau i fywyd gwell.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i ddefnyddio popeth sydd ganddi i fynd i’r afael â thlodi plant. Gan ddefnyddio’n pwerau newydd yr ydym eisoes wedi dechrau’r broses o ddiwygio’r gyfraith mewn perthynas â phlant agored i niwed yng Nghymru, gan gynnwys gweithredu ar dlodi plant.

Yn y Cynulliad ar 9 Gorffennaf 2007, gosodwyd Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol oedd yn rhoi grym i’r ymrwymiad uchod. Bydd y Gorchymyn yn anelu at ganiatáu i’r Cynulliad gael pwerau eang i wneud Mesurau ar draws ystod eang o les cymdeithasol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Bydd yn rhoi pwerau i ni symud ymlaen â rhai o’n camau cynharaf i fynd i’r afael â thlodi plant ac i ddod â mwy o atebolrwydd ar lefel

genedlaethol a lleol i'r agenda hon, gan adeiladu ar y rhaglenni gwrth-dlodi presennol fel Dechrau'n Deg, Cymorth a Chymunedau yn Gyntaf. Bydd y Gorchymyn hefyd yn gyfle i Lywodraeth y Cynulliad symleiddio ac atgyfnerthu'r gyfraith ac i gynnig polisïau cydlynus sy'n addas i Gymru ar gyfer plant mewn gofal, y rhai sy'n ymadael â gofal a phlant eraill sy'n byw mewn teuluoedd agored i niwed.

Mae tystiolaeth yn dangos bod nifer fawr o blant mewn gofal yn dod o deuluoedd difreintiedig sydd ag anghenion cymhleth a lle mae tlodi yn aml iawn yn un o'r ffactorau sy'n achosi anfantais. Gan adeiladu ar y rhaglen Rhoi Plant yn Gyntaf byddwn yn ymgynghori yn nes ymlaen yr haf hwn ar strategaeth ar gyfer plant agored i niwed i roi mwy o gymorth i blant a theuluoedd agored i niwed fel y gall y plant hynny fyw mewn diogelwch yn eu cartrefi a mwynhau iechyd da.

**Y Blynyddoedd Cynnar ac Addysg**

Anelwyd ein menter 'Dechrau'n Deg' at y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gan gydnabod y dystiolaeth bod plant mewn ardaloedd lle mae sawl math o anfantais yn dioddef o effeithiau ychwanegol. Mae'n adeiladu ar y gwaith gwerthfawr a wnaed o dan thema Cychwyn Cadarn y cynllun grant Cymorth ac mae'n ategu'r gwaith hwnnw. Mae £31 miliwn wedi'i ddarparu ar gyfer Dechrau'n Deg yn 2007-08. Mae'r Gyllideb yn darparu ar gyfer cynnydd o 10% yng nghwmpas y rhaglen dros y 3 blynedd nesaf. Golyga hyn y bydd 1,600 yn ychwanegol o blant yn cael mantais o'r rhaglen - sef cyfanswm o 17,600 o blant.

Mae'r rhaglen yn seiliedig ar dystiolaeth ryngwladol am ymyriadau sy'n rhoi hwb i blant gael gwell canlyniadau yn y tymor hir ac mae'n cynnwys gofal plant di-dâl o safon uchel, mwy o ymweliadau iechyd, a rhaglenni rhianta. Ar hyn o bryd, anelir y rhaglen at nifer fach o ddalgylchoedd ysgolion. Cyfyngwyd nifer y dalgylchoedd yn bwrpasol er mwyn medru buddsoddi'n ddwys ond mae'n bosibl y caiff y rhaglen ei hehangu yn y dyfodol pan fydd wedi'i gwerthuso.

O fis Medi ymlaen byddwn yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen sy'n cydnabod bod pob plentyn yn wahanol a'i bod yn hollbwysig bod y cyfleoedd a roddir iddynt yn meithrin agwedd gadarnhaol tuag at addysg. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn annog plant i ddod yn hunanddibynnol, i fwynhau her ac i feithrin agwedd gadarnhaol at ddysgu. Mae'n golygu datblygu dyheadau, cymhellion a sgiliau cymdeithasol plant. Yn y dyfodol bydd y Cyfnod Sylfaen yn arwain at ostwng dadrithiad a chefnogi'r plant hynny sy'n wynebu anfantais a phrinder cyfle. Mae codi lefelau cyrhaeddiad addysg, yn enwedig lleihau'r bwlch rhwng cyflawniad plant sy'n dod o deuluoedd incwm isel a'u cyfoedion, yn rhan sylfaenol o'r frwydr i fynd i'r afael â thlodi plant ac i leihau effeithiau'r anfantais. Mae rhaglen Rhagori wedi'i thargedu'n benodol at ddisgyblion difreintiedig er mwyn codi'r lefelau cyflawni. Neilltuwyd £16 miliwn i fynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng amddifadedd cymdeithasol a thangyflawniad yng Nghymru ym mlynyddoedd 2006/07 a 2007/08, ill dwy. Mae £14.6 miliwn o hwn wedi'i ddyrannu i ysgolion bob blwyddyn a neilltuwyd £1 miliwn i gefnogi

addysg Plant sy’n Derbyn Gofal.

Cyflwynwyd ein rhaglen brecwastau am ddim yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf fel mantais ychwanegol i’n plant mwyaf difreintiedig, ac erbyn hyn mae ar gael i bob ysgol sy’n awyddus i gymryd rhan.

Mae darparu cymorth i blant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn hanfodol. Cyfanswm y gwariant ar y ddarpariaeth AAA gan Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau) y cyllidebwyd ar ei gyfer yn 2007-08 yw £307 miliwn. Mae hyn yn gynnydd o 6.5% ar gyllideb y llynedd. Gan gydnabod y cynnydd yn y costau o ddarparu ar gyfer anghenion cymhleth plant ag AAA neilltuwyd £7.7 miliwn arall yn setliad llywodraeth leol eleni. Mae £1.7 miliwn o hwnnw yn benodol ar gyfer darparu gwasanaethau arbenigol ar gyfer plant ag awtistiaeth. Hefyd, darparwyd cymorth ychwanegol sylweddol i Awdurdodau Lleol drwy nifer o gynlluniau grant penodol y gellir eu defnyddio i gefnogi disgyblion ag AAA a grwpiau dan anfantais.

Yn hytrach na rhoi gorfodaeth ar bobl ifanc dros 16 oed gymryd rhan mewn addysg, ein gweledigaeth, fel y nodir yn Cymru’n Un, yw gweddnewid y ddarpariaeth ddysgu ar gyfer pobl ifanc drwy gynnig opsiynau dysgu deniadol a hyblyg sy’n cael eu hategu gan gymorth a chyfarwyddyd. Bydd ein Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008, os caiff ei wneud yn ddeddf, yn gwneud hyn yn hawl gyfreithlon ar gyfer pob dysgwr. Drwy gynyddu nifer ac ansawdd yr opsiynau sydd ar gael i bobl ifanc credwn y byddant yn awyddus i barhau i gymryd rhan mewn dysgu a hyfforddi ac y byddant yn gweld gwerth mewn gwneud hynny.

I ategu Llwybrau Dysgu 14-19 mae arnom hefyd angen cyfres gryfach o rwymedigaethau ar ddarparwyr. Mae ein Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008 yn cynnig rhoi dyletswydd ar awdurdodau addysg lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach i gydweithredu i gyflawni dewislen o opsiynau lleol ar gyfer pobl leol.

Cyn bo hir byddwn hefyd yn cyflwyno dogfen ymgynghori sydd â’r nod o leihau’r gyfran o bobl ifanc y tu allan i’r system – y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Dyma’r cyntaf mewn cyfres o bapurau thematig sy’n gwneud cynigion i fynd i’r afael â materion a glustnodwyd yn Sgiliau sy’n Gweithio i Gymru – ein strategaeth sgiliau a chyflogaeth ddrafft. Bydd y papur yn cynnig newidiadau fel bod gennym brosesau effeithlon ar gyfer adnabod pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac ailennyn eu diddordeb; amrywiaeth lawn o opsiynau dysgu i fodloni’r galw – i ennyn diddordeb pobl ifanc drwy wneud darpariaeth ddigonol ar bob lefel ac ym mhob steil o ddysgu; darparu dysg mwy penodol a dwys, a chymorth personol yn ogystal â chyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd i wneud yn siŵr bod pobl ifanc yn gwybod sut i gael addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ac i’w galluogi i chwalu rhwystrau personol, sydd weithiau’n rhai sylweddol, i gyfranogiad.

Mae gwella sgiliau sylfaenol a sgiliau sy’n gysylltiedig â gwaith yn elfennau pwysig yn ein strategaeth tlodi plant. Nod y polisïau sydd eisoes yn

strategaeth sgiliau sylfaenol Llywodraeth y Cynulliad, 'Geiriau'n Galw: Rhifau'n Cyfri' ac yng Nghynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005' yw gwella'r canlyniadau ar gyfer plant agored i niwed a'u teuluoedd. Yn ddiweddar cyhoeddwyd Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth newydd i Gymru i ymgynghori yn ei chylch.

**Cymorth Cyflogaeth**

Gan gydnabod y rôl hollbwysig sydd gan gofal plant o ran lleihau anfantais a chynyddu cyfraddau cyflogaeth rydym wedi ymrwymo i symud ymlaen i ddarparu gofal plant cyffredinol a fforddiadwy. Bydd cymorth ychwanegol yn y gyllideb yn ystod y tymor hwn o'r Cynulliad gan gynnwys ehangu gwasanaethau gofal plant di-dâl, o'r radd flaenaf, ar gyfer plant 2 oed yn yr ardaloedd hynny lle mae'r angen mwyaf. Bydd Deddf Gofal Plant 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fod â digon o lefydd gofal plant ar gyfer rhieni sydd am weithio neu hyfforddi, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol. Cyfeirir yn benodol at rieni plant anabl, y rhai sy'n awyddus i gael darpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r rhai sy'n derbyn y Credyd Treth Gwaith.

Mae sicrhau gofal plant fforddiadwy o'r radd flaenaf yn ffactor bwysig, a darperir cymorth drwy'r elfen gofal plant o'r Credyd Treth Gwaith. Ar y cyfan, mae nifer y llefydd gofal plant a gofrestrwyd gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi cynyddu 13,000 ers 1999. Cofrestrodd yr Arolygiaeth 795 lleoliad newydd yn 2006-7, o gymharu â 612 lleoliad gofal plant newydd yn 2005-6 a 517 yn 2004-5.

Hefyd, defnyddiodd Genesis Cymru arian gan Gronfeydd Cymdeithasol Ewrop i gefnogi 10,000 o fuddiolwyr, gan roi cyngor, meithrin hyder a gwasanaethau gofal plant er mwyn chwalu'r rhwystrau i waith a hyfforddiant. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y Cynulliad yn paratoi prosiect i olynu Genesis Cymru. Os caiff ei gymeradwyo bydd yn seiliedig ar Agenda Lisbon er mwyn cynyddu cyflogaeth a lleihau anweithgarwch economaidd.

Y ffordd orau i'r rhan fwyaf o bobl dlawd godi o'u tlodi yw cael gwaith. Mae cynyddu'r lefelau o weithgarwch economaidd drwy helpu mwy o bobl i gael gwaith yn brif flaenoriaeth. Y dystiolaeth ar gyfer y strategaeth honno yw'r gwaith llwyddiannus a wnaed gennym gyda'r Ganolfan Byd Gwaith i ymchwilio i'r fenter 'Yn Awyddus i Weithio' a'i datblygu. Mae rhaglen yn rhoi cymorth i'r bobl hynny sy'n cael budd-daliadau symud o'u gwirfodd i gyflogaeth gynaliadwy ac mae eisoes wedi rhagori ar ei tharged i helpu mil o bobl i gael gwaith eleni; erbyn mis Hydref 2007 roedd y rhaglen eisoes wedi helpu dros 1,750 o bobl i gael gwaith. Ar sail hyn rydym bellach yn gweithio gyda'r Ganolfan Byd Gwaith i ehangu'r fenter 'Yn Awyddus i Weithio' a'i chyflwyno i ardaloedd eraill yng Nghymru lle mae cyfraddau uchel o bobl ddifreintiedig sydd am gael cymorth a help i ddod o hyd i waith.

Gan fod cynifer o'r plant sy'n byw mewn tlodi yn dod o deuluoedd unig riant, mae'n hollbwysig y caiff unig rieni eu helpu a'u cefnogi wrth iddynt symud i gyflogaeth a hyfforddiant. Drwy weithio mewn partneriaeth gyda'r Ganolfan Byd Gwaith, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r Fargen Newydd ar

gyfer Rhieni Unigol sy'n cynnig cymorth sy'n berthnasol i waith, cymhellion ariannol a chyngor a darpariaeth gofal plant. Rhaid i'r amgylchedd hwn o help a chymorth barhau wrth i ni ymdrechu i gyrraedd ein targedau ar gyfer cyflogi unig rieni ac wrth i raglen Llywodraeth y DU i ddiwygio llesiant gael ei gweithredu yng Nghymru.

Hefyd, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gweithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ar brosiect i fynd i'r afael â diweithdra mewn rhai o'r wardiau lle mae'r amddifadedd mwyaf yn y DU. Nod y Prosiect Dinasoedd yw sicrhau gwelliant sylweddol yn y gyfradd gyflogaeth ymhlith pobl o oed gweithio, yn enwedig ymhlith grwpiau difreintiedig. Bydd yn rhoi'r help sydd ei angen ar y bobl hyn i ganfod gwaith a'i gadw, ac i wella'u sgiliau fel y gallant symud ymlaen mewn cyflogaeth. Ardaloedd braenaru'r Strategaeth Ddinasoedd yng Nghymru yw Blaenau'r Cymoedd a'r Rhyl sydd ill dwy bellach yn cyflawni ar sail y targedau heriol a bennwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i leihau diweithdra, y ddibyniaeth ar fudd-daliadau a thlodi plant.

**Ymyrraeth ym Maes Iechyd**

Mae'r cysylltiad rhwng tlodi ac iechyd gwael wedi'i hen sefydlu. Un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o roi ein plant ar y trywydd iawn i iechyd yw rhoi cyfle iddynt gael sylfaen faeth gref at y dyfodol. Llaeth y fron yw'r bwyd cyntaf gorau posibl ar gyfer babanod. Mae ymchwil yn dangos mai menywod sy'n gadael addysg gynharaf ac sydd ar yr incwm isaf sydd leiaf tebygol o fwydo eu babanod ar y fron. Mae Strategaeth Bwydo ar y Fron Llywodraeth y Cynulliad, "Buddsoddi mewn Gwell Cychwyn", wedi'i sefydlu er mwyn codi'r cyfraddau bwydo ar y fron yng Nghymru. Rydym wedi cyllido 22 o Gynlluniau Cymorth Bwydo ar y Fron i ganolbwyntio ar anghenion y mamau ifancaf ledled Cymru ac mae gweithwyr iechyd proffesiynol a gwirfoddolwyr yn cydweithio yn yr ardaloedd sydd fwyaf anghenus yn gymdeithasol.

Bydd y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant yn ein helpu i gyrraedd saith nod craidd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc drwy wella ansawdd a lleihau anghysondeb yn y gwasanaethau a ddarperir drwy bennu safonau cenedlaethol. Nid ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn unig y pennwyd y safonau hyn, ond hefyd ar gyfer gwasanaethau eraill llywodraeth leol sy'n dylanwadu'n fawr ar iechyd a lles plant.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio'n agos â'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol i geisio gweld pa gamau a fydd yn ein helpu i gyrraedd y cerrig milltir a'r targedau iechyd yn 'Cael Gwared ar Dlodi Plant yng Nghymru - Mesur Llwyddiant'. Mae cynlluniau gweithredu ar y gweill i'r Gweinidog eu hystyried. Cynlluniau yw'r rhain sy'n ymwneud â phwysau geni isel/marwolaethau babanod a beichiogi yn yr arddegau.

Rydym yn gwybod bod cryn amrywiaeth yn yr achosion o bydredd dannedd ledled Cymru ond mae'r sefyllfa yn waeth ac yn dirywio mewn ardaloedd o amddifadedd. Ar 13 Tachwedd 2006, cyhoeddodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar

Iechyd y Geg yn cael ei ddatblygu yng Nghymru. Bydd hwn yn cynnig cynllun hirdymor gyda'r nod o wella iechyd y geg, a chamau i gyrraedd y nod hwnnw. Bydd yn annog unigolion i reoli iechyd eu ceg yn well, bydd yn rhoi arweiniad i ddeintyddfeydd ganolbwyntio'n fwy ar ofal ataliol a bydd yn galluogi comisiynwyr i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb sy'n bodoli ers tro ym maes iechyd y geg. Wrth wneud hynny, bydd hefyd yn gweithio i gyrraedd targedau Llywodraeth y Cynulliad o ran tlodi plant.

Ymhlith grwpiau difreintiedig y mae'r cyfraddau smygu uchaf a dyma un o'r prif ffactorau sy'n gyfrifol am anghydraddoldebau iechyd. Felly, rydym wedi sefydlu rhaglen o fentrau i atal smygu. Rydym yn cyllido 'Dim Smygu Cymru', menter sy'n rhoi cyngor a chymorth i smygwyr sydd eisiau rhoi'r gorau iddi ac sy'n canolbwyntio'n benodol ar anghenion grwpiau difreintiedig wrth ddatblygu a darparu ei gwasanaethau. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn helpu i gyflwyno rhaglen gymorth Treial Rhoi'r Gorau i Ysmygu mewn Ysgolion (ASSIST) ledled Cymru, sy'n ceisio addysgu pobl ifanc ym Mlwyddyn 8 am beryglon smygu a'u hannog i beidio â gwneud. I ddechrau, mae'r rhaglen yn targedu ysgolion yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Yn ogystal, mae clwb Bygiau Baco i blant 9-11 oed sy'n ymrwymo i beidio â smygu ac mae'r Gystadleuaeth Dosbarth Di-fwg yn targedu plant 11-13 oed yn holl ysgolion uwchradd Cymru.

**Gwella Cyfleoedd Bywyd**

Rydym wedi ymrwymo i weithio ar draws y Llywodraeth i wella'r gwasanaethau a ddarperir a'r canlyniadau i blant ag anableddau. Mae aelodau o Ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri ac uwch swyddogion newydd sefydlu Gweithgor i roi cyngor i Weinidogion a datblygu'r gwaith yn y maes pwysig hwn. Yn ogystal, bydd Pwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc yn chwarae rôl hanfodol o ran cydgysylltu polisi a rhaglenni i blant anabl a bydd yn helpu i fynd i'r afael â materion gwasanaethau darniog a chymhlethdod eu darparu, sy'n gallu bod yn arbennig o anodd i deuluoedd plant anabl.

Mae gofalwyr ifanc yn wynebu mwy o anfanteision na'r cyffredin ac mae angen cymorth a chefnogaeth ychwanegol arnynt. Dyma un o'r pum maes blaenoriaeth yn Strategaeth Gofalwyr Llywodraeth y Cynulliad. Mae ein polisïau o ran gofalwyr ifanc yn seiliedig ar yr egwyddor gyffredinol na ddylid disgwyl i ofalwyr ifanc ymgymryd â lefelau amhriodol o ofal sy'n effeithio'n andwyol ar eu datblygiad personol. Ers sefydlu strwythur newydd yn 2006, mae Llywodraeth y Cynulliad yn medru gwrando ar ofalwyr ifanc ac mae ganddynt lais o ran yr hyn ddylai fod yn flaenoriaeth. Mae'n sicrhau hefyd y gallant gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu polisïau sy'n effeithio arnynt. Mae prosiectau gofalwyr ifanc ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, sy'n cael eu gweithredu gan fudiadau'r sector gwirfoddol, gyda llefydd i fwy na 1,500 o ofalwyr ifanc. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n adolygu ein hadnodd hyfforddi "Gofalu am Ofalwyr Ifanc" ar gyfer ysgolion a byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn y gwanwyn.

Mae ei gwneud yn haws i blant difreintiedig allu gwneud chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn allweddol ac rydym yn llwyr gydnabod pwysigrwydd

sicrhau bod cyfleusterau chwarae addas ar gael. Mae ein rhwydwaith newydd o ganolfannau plant integredig yn golygu bod cyfleusterau chwarae mynediad agored ar gael am ddim yn ystod y tymor ysgol, a hynny ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae 'Polisi Cynllunio Cymru' yn ceisio gwarchod caeau chwarae rhag cael eu datblygu, ac eithrio lle byddai hyn yn gwella'r ddarpariaeth bresennol, lle gellir creu darpariaeth amgenach, neu lle mae gormod o ddarpariaeth mewn ardal benodol. Dylai awdurdodau lleol nodi eu polisïau ar gyfer chwaraeon a hamdden yn eu cynlluniau datblygu lleol. Rhaid iddynt hefyd ymgynghori â Chyngor Chwaraeon Cymru cyn rhoi caniatâd cynllunio lle bydd datblygiad yn effeithio ar gae chwarae, neu dir a ddefnyddiwyd fel cae chwarae yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Rydym yn gweithio i gryfhau'r trefniadau sydd eisoes yn eu lle i warchod tir.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn parhau i fuddsoddi £5 miliwn y flwyddyn i roi mynediad am ddim i blant a phobl ifanc i byllau nofio awdurdodau lleol yn ystod gwyliau ysgol a bydd yn ystyried ehangu'r cynllun i weithgareddau eraill a'i gwneud yn haws gwneud chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar benwythnosau.

Gan gydnabod y cysylltiad rhwng damweiniau sy'n digwydd i blant wrth gerdded a thlodi, rydym wedi darparu cyllid i awdurdodau lleol weithredu cynlluniau sy'n helpu plant i gerdded a beicio i'r ysgol ac yn ôl yn ddiogel. Yn 2007-08 dyrannwyd £5.1 miliwn i brosiectau ledled y wlad. Mae hyn yn dod â'r cymorth rydym wedi'i roi i'r rhaglen i £27 miliwn ers iddi ddechrau ym 1999-2000. O fis Ebrill, rhoddir rhaglen Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ar waith, gan helpu i wneud y ffyrdd yn fwy diogel a datblygu llwybrau cerdded a beicio mewn cymunedau lleol.

### Rhoi Rhan i Blant a Phobl Ifanc

Mae agwedd Llywodraeth y Cynulliad at roi rhan i blant a phobl ifanc yn y materion hyn yn seiliedig ar yr egwyddorion yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae Erthygl 12 yn nodi hawl pob plentyn a pherson ifanc i fynegi barn ac i'r farn honno gael ei hystyried mewn unrhyw fater neu weithdrefn sy'n effeithio arnynt. Mae "Gweithredu'r Hawliau" yn sôn yn fanylach am safbwynt Llywodraeth y Cynulliad.

Er mwyn hybu cyfranogiad ar lefel genedlaethol yng Nghymru, rydym yn cefnogi Consortiwm Cyfranogiad sy'n cael ei hwyluso gan Achub y Plant Cymru. Mae hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau ambarél plant a phobl ifanc ledled Cymru. Mae llawer o fentrau yn cael eu cynnal hefyd i godi ymwybyddiaeth o gyfranogiad yn adrannau Llywodraeth y Cynulliad ac i hyfforddi plant a phobl ifanc ar sut i gymryd rhan yn ein gwaith.

Mae Ymestyn Hawliau yn ceisio sicrhau bod pobl ifanc ledled Cymru yn manteisio'n fwy ar eu 10 hawl. Mae pob Hawl sydd gan bobl ifanc o fewn yr agenda hon yn ceisio sicrhau bod amrywiaeth o gymorth ar gael i bobl ifanc 11-25 oed a'u bod yn gallu defnyddio amrywiaeth o wasanaethau yn ôl yr

angen er mwyn gwneud dewisiadau sy'n seiliedig ar wybodaeth. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, drwy gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop, mae partneriaid ledled Cymru wedi gwneud gwaith ychwanegol gyda dros 40,000 o bobl ifanc er mwyn eu helpu i fanteisio'n fwy ar eu hawliau a gwella eu sgiliau.

Ar lefel genedlaethol, prosiect Clic yw'r prosiect gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc 11-25 oed, ac mae wedi rhoi gwybodaeth i bobl ifanc ar amrywiaeth o bynciau sydd o ddiddordeb iddynt, a dolenni i adnoddau ehangach. Ymhlith pynciau eraill, rhoddwyd gwybodaeth am arian ac mae'n cynnig dolenni i ffynonellau cyngor a gwybodaeth eraill.

**Ymyrraeth yn y Gymuned**

Ni ellir anwybyddu'r elfen ofodol na gwerth targedu adnoddau. I'r perwyl hwnnw, mynd i'r afael â thlodi plant yw un o'r prif flaenoriaethau ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf wrth i'r Rhaglen symud ymlaen i Cymunedau Nesaf. Rydym nawr yn ymgynghori ar ein gweledigaeth ar gyfer Cymunedau Nesaf a byddwn yn cydweithio â phartneriaid i sicrhau bod mentrau i fynd i'r afael â thlodi plant yn gweithio ar y cyd â Phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a thrwy'r partneriaethau hynny gymaint â phosibl. Mae Cymunedau Nesaf hefyd yn rhagweld mwy o bwyslais ar greu incwm a gwella'r rhagolygon o ran swyddi. Bydd hyn yn gyfraniad pwysig yn y frwydr yn erbyn tlodi plant; cydnabyddir mai gwella'r amgylchiadau hyn i deuluoedd yw'r ffordd fwyaf effeithiol o godi plant allan o dlodi.

Fel gyda'n holl ddinasyddion, mae anghenion llety ein plant a'n pobl ifanc yn rhan annatod o'n Strategaeth Dai Genedlaethol, 'Cartrefi Gwell i Bobl Cymru', ac mae elfennau o'r Strategaeth yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion llety plant a phobl ifanc. O ran ansawdd ac addasrwydd cartrefi, mae'r cysylltiad â chyrhaeddiad academaidd a lles ein plant yn cael eu cydnabod ac eir i'r afael â ffactorau dylanwadol fel cartrefi gorlawn ac anaddasrwydd drwy'r mesurau a gyflwynwyd gan y System Mesur Iechyd a Diogelwch.

Mae ein hagenda i atal digartrefedd a gwella amodau pobl sy'n byw mewn llety dros dro, sydd wedi'i nodi yn ein Strategaeth Ddigartrefedd, wedi cwtogi’n ddramatig ar niferoedd y teuluoedd sy'n byw mewn sefydliadau Gwely a Brecwast. O fis Medi 2006 i fis Medi 2007, gwelwyd gostyngiad o 76% yn niferoedd y teuluoedd mewn sefydliadau Gwely a Brecwast, o 134 i 32.

Yn ogystal, mae ein rhaglen Cefnogi Pobl yn rhoi cymorth i fynd i'r afael ag anghenion llety a chymorth grwpiau sy'n agored i niwed fel pobl sengl ifanc sy’n ddigartref a throseddwyr ifanc. Yn 2001 cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad y Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) a oedd yn ehangu'r ddeddfwriaeth a oedd yn diogelu pobl ddigartref i gynnwys pobl ifanc 18-20 oed ac a fu mewn gofal ar unrhyw adeg yn eu bywyd. Mae'r Gorchymyn hefyd yn ymrwymo awdurdodau lleol i ddarparu tai ar gyfer pobl yn y grŵp oedran hwn sydd mewn perygl y bydd rhywrai'n camfanteisio'n rhywiol neu'n ariannol arnynt, yn ogystal â phob person ifanc 16 ac 17 oed.

Mae'r ymrwymiad i fynd i'r afael â chartrefi gorlawn lle mae yna blant dibynnol

yn rhan o'n targedau tlodi plant sydd wedi'u nodi yn 'Cael Gwared ar Dlodi Plant yng Nghymru - Mesur Llwyddiant' ac yn ddiweddar buom yn ymgynghori ar broblem cartrefi gorlawn yng Nghymru, gan ofyn i bobl am eu barn am sut y gellid newid y safonau cyfredol o ran gofod ac ystafelloedd gwely. Ers hyn, targedwyd awdurdodau unigol yn benodol. Mae cefnogi teuluoedd sy'n ymdopi ag anabledd yn hollbwysig a diddymodd Llywodraeth y Cynulliad y prawf modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl i blant anabl ym Medi 2005 er mwyn gwella'r broses gais a'i gwneud yn haws manteisio ar y grantiau hyn.

**Meysydd 2 a 3: Cynhwysiant Ariannol a Manteisio ar Gymorth Llywodraeth y DU**

Mae'n hollbwysig gwneud y mwyaf o incwm y teulu. Mae'n wir nad yw llawer o'r materion sy'n gysylltiedig â gorddyled a'r atebion posibl i'r problemau hyn wedi'u datganoli, ond byddwn yn parhau i weithio ym mhob un o feysydd y Llywodraeth i sicrhau bod Cymru'n elwa ar adnoddau a mentrau'r DU. Cadarnhaodd yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a gyhoeddwyd yn ddiweddar y bydd £130 miliwn yn y Gronfa Cynhwysiant Ariannol ar gyfer 2008-11. Yn y gorffennol, mae Cymru wedi derbyn bron £4.4 miliwn o'r Gronfa, a byddwn yn sicrhau ein bod yn derbyn y gyfran briodol o'r cyllid hwn i fynd i'r afael ag allgáu ariannol ledled Cymru.

Gall Llywodraeth y Cynulliad wneud cynnydd sylweddol o ran mynd i'r afael ag allgáu ariannol a byddwn yn cyhoeddi Strategaeth Cynhwysiant Ariannol gynhwysfawr yn nes ymlaen eleni i ddod â'r holl waith at ei gilydd. Byddwn yn adeiladu ar seiliau'r Adolygiad o Orddyled a byddwn yn cynnwys camau i wella llythrennedd ariannol mewn ysgolion, cefnogi'r mudiad undebau credyd, ei gwneud yn haws i weld cynghorwyr dyledion a herio benthyca anghyfreithlon.

Mae ‘Cymru'n Un’ yn ymrwymo Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod cyngor cynhwysfawr am fudd-daliadau ar gael ym mhob ardal awdurdod lleol. Mae gwaith ar nodi'r bylchau yn y ddarpariaeth gyngor wedi dechrau a bydd hyn hefyd yn ystyried y ffordd y darperir gwasanaethau cyngor yn y dyfodol, fel yr amlinellir yn nogfen bolisi'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol/Llywodraeth y Cynulliad “Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth yng Nghymru”.

Byddwn yn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol yng Nghymru a'r Trydydd Sector o ran llwyddo i annog mwy o bobl i gymryd Budd-dal y Dreth Gyngor. Bydd hyn yn cael ei ymestyn i gynnwys y Budd-dal Tai. Byddwn yn sicrhau dull integredig o wneud y mwyaf o incwm i sicrhau bod pobl, gan gynnwys teuluoedd ar incwm isel â phlant, yn cymryd y budd-daliadau y mae ganddynt hawl eu cael. Byddwn yn datblygu cysylltiadau cryfach a systemau cyfeirio mwy eglur rhwng awdurdodau lleol a'r Ganolfan Byd Gwaith drwy adeiladu ar arferion da mentrau cyfredol fel Cysyllt-oed a Cyngor Da: Iechyd Da. Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod cynyddu’r nifer sy'n cymryd budd-daliadau yn flaenoriaeth i bob rhaglen sy'n gweithio gyda theuluoedd agored i niwed.

Mae cydnabod pa mor bwysig yw ymyrryd yn gynnar a gwella addysg mewn llythrennedd ariannol mewn ysgolion yn flaenoriaeth. Bydd y newidiadau rydym yn bwriadu'u gwneud i'r cwricwlwm yng Nghymru yn mynd ymhellach na'r rheini a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU. Bydd plant yn cael gwersi llythrennedd ariannol erbyn mis Medi 2008 o dan y fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol i blant rhwng 7 ac 19 oed, a'r fframwaith mathemateg i blant rhwng 7 ac 16 oed.

Mae undebau credyd yn gwneud cyfraniad gwerthfawr o ran ei gwneud yn haws i grwpiau cymdeithasol difreintiedig gael gwasanaethau ariannol. Rydym wedi ymrwymo i sefydlu'r math hwn o fenter gymdeithasol ledled Cymru. Rydym eisoes wedi buddsoddi £1.75 miliwn yn y mudiad undebau credyd yng Nghymru, gan gynnwys £250,000 yn 2007-2008. Mae undebau credyd bellach yn gweithredu mewn 21 o'n 22 awdurdod lleol. Wrth gwrs, mae gwaith i'w wneud o hyd i ddatblygu gallu'r undebau credyd i ehangu'r gwasanaethau hanfodol y maent yn eu darparu a'u symud tuag at gynaliadwyedd ariannol.

Mae llawer o undebau credyd yng Nghymru eisoes wedi datblygu partneriaethau gydag ysgolion lleol ac maent yn cyfrannu at ddarparu'r rhan hanfodol hon o'r cwricwlwm. Mae pob undeb credyd yn cynnig aelodaeth i bobl iau er mwyn iddynt gael cyfrifon cynilo diogel a chyngor ar reoli'u harian. Rydym wedi ymrwymo i ymestyn hyn, a byddwn yn buddsoddi £1.25 miliwn ychwanegol dros y tair blynedd nesaf i ddatblygu undebau credyd a'u galluogi i gynnig cyfrifon undeb credyd i bob disgybl ysgol uwchradd erbyn 2011.

Mae'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant yn ased gwerthfawr i bob plentyn. Mae angen amryw wahanol fathau o gyfrifon i annog cynifer o rieni a gwarcheidwaid â phosibl i dalu'r daleb i gyfrif. Ar y cyd ag awdurdodau lleol, rydym eisoes yn cynnig Cynllun Ad-dalu'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant i blant sy'n derbyn gofal, sy'n ad-dalu £50 y plentyn i awdurdodau am bob plentyn sydd yn eu gofal. Hefyd, o 2009/10 ymlaen, byddwn yn buddsoddi £2.5 miliwn drwy'r Premiwm Cymreig i'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant a fydd yn rhoi taliad ychwanegol o £50 i bob plentyn, gan godi i £100 i'r rhai mwyaf difreintiedig, wrth iddynt ddechrau addysg amser llawn. Rydym hefyd yn bwriadu adeiladu ar waith cynlluniau peilot a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad i annog cynifer o undebau credyd â phosibl i ddechrau cynnig cyfrifon y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant.

**Newid Pethau**

Er mwyn cydnabod pa mor bwysig yw datblygu a chyflwyno polisïau mewn modd cydlynus, rydym wedi cymryd camau ar lefel genedlaethol drwy sefydlu Pwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc, dan gadeiryddiaeth y Gweinidog dros Blant, i sicrhau bod cyfrifoldebau trawsbynciol ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys tlodi plant, yn cael eu cydlynu'n effeithiol ym mhob un o feysydd gwaith y Llywodraeth.

Mae grŵp cymorth o uwch swyddogion o'r adrannau polisi perthnasol gyda Chadeirydd Gweinidogol wedi cael ei sefydlu i gefnogi gwaith Pwyllgor y

Cabinet. Bydd hyn yn sicrhau bod camau gweithredu'r Llywodraeth ar dlodi yn canolbwyntio ar y meysydd cywir a'u bod yn cael eu cydlynu'n addas. Mae hyn yn ymateb i sylwadau'r Dirprwy Gomisiynydd Plant yn ei hadroddiad diweddaraf, a gyhoeddwyd ym mis Hydref, lle'r oedd yn annog gweithredu llawn a chydlynus ar draws ein holl raglenni sy'n canolbwyntio ar dlodi plant.

Mae sicrhau mai mynd i'r afael â thlodi plant yw un o brif flaenoriaethau sector cyhoeddus Cymru hefyd yn allweddol. Pan fydd y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar Blant sy'n Agored i Niwed a Thlodi Plant yn dod i rym, byddwn yn ceisio cyflwyno Mesur i roi dyletswydd ar asiantaethau cyhoeddus i gyfrannu at roi terfyn ar dlodi plant, a dangos y cyfraniad hwnnw, drwy gyfuno'r ddeddfwriaeth bresennol a sicrhau bod pob corff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithredu o dan ddyletswyddau statudol cyson.

Rwy'n ymwybodol bod y broses ddeddfwriaethol newydd yn hirfaith, felly bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio yn y tymor byr i ddatblygu cytundeb gwirfoddol, gan ymgynghori'n llawn â'r sectorau perthnasol, i gadarnhau'r gofynion statudol cyfredol ac amlygu meysydd lle mae nifer o sefydliadau yn mynd i'r afael â thlodi plant. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod asiantaethau cyhoeddus yn blaenoriaethu tlodi plant. Mae nifer o asiantaethau cyhoeddus eisoes yn gweithio i weithredu ar dlodi plant. Er enghraifft, gan ddefnyddio cyllid Llywodraeth y Cynulliad, mae dau awdurdod lleol – Rhondda Cynon Taf a Gwynedd – yn cymryd rhan mewn prosiect peilot dwy flynedd sy'n cael ei arwain gan Achub y Plant a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sicrhau bod gweithredu ar dlodi plant ar frig y rhestr flaenoriaethau i lywodraeth leol.

Mae angen cymryd camau ar lefel genedlaethol a lefel leol. O dan Ddeddf Plant 2004, mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am arwain y gwaith o ddatblygu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc mewn Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc lleol. Mae'r cynlluniau strategol tair blynedd hyn yn nodi'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer gwella canlyniadau, sy'n cyfarwyddo gwaith yr holl bartneriaid, gan gynnwys gwaith mewn perthynas â thlodi plant.

Gall awdurdodau lleol chwarae rôl arwyddocaol o ran mynd i'r afael â thlodi plant drwy weithio â'u partneriaid. Gall camau i ddarparu cyngor ar fudd-daliadau, tai fforddiadwy, gwasanaethau i deuluoedd digartref a chymorth effeithiol i blant sy'n agored i niwed wella ansawdd bywyd y rhai mwyaf difreintiedig.

Yn ogystal â'r trefniadau mewnol hyn, rwyf wedi cytuno i sefydlu Grŵp Arbenigol ar Dlodi Plant, i'w gadeirio gan Huw Lewis AC. Bydd gofyn i'r Grŵp roi cyngor i mi ar sail tystiolaeth ar y gofynion polisi ehangach sy'n angenrheidiol i gyrraedd ein targed tlodi plant ar gyfer 2010 a 2020. Mae'r Grŵp hwn yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd yn unol â'r rheolau ar benodiadau cyhoeddus a bydd ei waith yn dechrau ym mis Ebrill 2008.

O ystyried y goblygiadau arwyddocaol i Gymru ynghylch y materion hynny sydd heb eu datganoli, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cadw mewn cysylltiad agos â'r Uned Tlodi Plant newydd yn Whitehall. Cynhaliwyd cyfarfod o swyddogion allweddol ar 22 Ionawr, lle cytunwyd y bydd Fforwm swyddogol

newydd y Pedair Gwlad ar Dlodi Plant yn cwrdd bob chwarter i gryfhau'r cysylltiadau yn Llywodraeth y DU wrth i ni ymdrechu i gyrraedd y targedau tlodi plant.

### Monitro a Gwerthuso

Mewn ymateb i ganfyddiadau adroddiad UNICEF yn gynharach eleni, rydym o'r farn y dylid rhoi tlodi plant yng nghyd-destun ehangach lles plant. Mae adolygiad diweddar o ddata Cymru, i weld a yw'r darlun yng Nghymru yn wahanol i'r darlun a ddisgrifir yn yr adroddiad am y DU gyfan, wedi dangos pa mor bwysig yw iddi fod yn hawdd i ni gael gafael ar ddata cyfoes a dibynadwy ar les plant yng Nghymru. Felly, o fis Medi 2008 ymlaen, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn creu Monitor Lles Plant bob tair blynedd i olrhain ansawdd bywyd plant a phobl ifanc ar draws ystod o ddimensiynau, gan gynnwys tlodi plant. Y Monitor fydd y cyfrwng i fesur cynnydd yn erbyn ein targedau trawsbynciol ar dlodi plant.

Mae mynd i'r afael â thrallod tlodi plant yn un o elfennau sylfaenol agenda cyfiawnder cymdeithasol Llywodraeth y Cynulliad. Mae ein rhaglen newydd o lywodraeth drwy bartneriaeth, a amlinellir yng nghytundeb 'Cymru'n Un', yn pwysleisio'n hymrwymiad i wneud popeth o fewn gallu Llywodraeth y Cynulliad i helpu i gyrraedd y nod o ddileu tlodi plant erbyn 2020.

# Cwestiynau ymgynghori

## Y Cytundeb ar y Cyd ar Dlodi Plant

1. A ydych chi'n gefnogol i'r dull partneriaeth a argymhellir yn y Cytundeb ar y Cyd?

2. A oes unrhyw weithgareddau eraill sy'n darparu ffyrdd i sefydliadau, lle bo'n briodol, helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu'r dull 3 haen o ymdrin â thlodi plant?

3. A oes unrhyw sefydliadau eraill y gellid eu hychwanegu at y rhestr o sefydliadau a gaiff eu gwahodd i lofnodi'r Cytundeb ar y Cyd?

4. A fyddai eich sefydliad yn dymuno llofnodi'r Cytundeb ac a oes sefydliad trosfwaol a allai lofnodi ar eich rhan chi ac eraill?

## Y ddyletswydd tlodi plant ar asiantaethau cyhoeddus

5. A ydych chi'n cytuno â'r fframwaith eang a gynigir?

6. A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch pa bryd y dylid defnyddio'r pŵer wrth gefn i gyflwyno rheoliadau a chanllawiau?

7. A oes gennych unrhyw sylwadau ar y cynigion i archwilio sut mae asiantaethau cyhoeddus yn cyflawni'r ddyletswydd tlodi plant?

## Y ddyletswydd lleoedd gofal plant am ddim

8. A ydych yn cytuno y dylid gwneud deddfwriaeth newydd i'w gwneud yn ofynnol i ddarparu lleoedd gofal plant am ddim i blant dwy oed?

9. A ydych yn cytuno y dylai'r ddeddfwriaeth hefyd ei gwneud yn ofynnol i ddarparu'r ddewislen gwmpasol o wasanaethau o fewn Dechrau'n Deg, fel mwy o ymweliadau iechyd dwys?

10. A ddylai rheoliadau ddiffinio'r ardaloedd difreintiedig a wasanaethir, neu a ddylai fod gan awdurdodau lleol y rhyddid i'w dethol?

## Cymorth

11. A ydych yn cytuno â'r cynnig am ddeddfwriaeth newydd i leihau anghydraddoldeb canlyniad?

12. A ydych yn cytuno â'r cynnig am ddeddfwriaeth newydd mewn perthynas â darpariaeth chwarae?

13. A ydych yn cytuno â'r cynnig am ddeddfwriaeth newydd mewn perthynas â chyfranogiad plant a phobl ifanc

14. A oes unrhyw elfen o'r cynigion lle byddech yn awgrymu dewis gwell?

15. A ydych yn ystyried y byddai'r cynigion yn tynnu gweithgaredd effeithiol presennol a ariennir gan Cymorth i mewn i arferion prif ffrwd?

16. Pe byddai deddfwriaeth yn cael ei gwneud o dan yr amodau hyn, a fyddai awdurdodau lleol yn gallu ariannu'r dyletswyddau newydd o fewn darpariaeth bresennol Cymorth?

## Rhestr o’r Sefydliadau yr Ymgynghorwyd â Hwy

Achub y Plant
Aelod Anweithredol Ymddiriedolaeth y GIG (14)
Aelod Arweiniol Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (22)
Aelod nad yw'n Swyddog o’r Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (22)
Aelodau'r Cynulliad
Afasic Cymru
After Adoption Wales
Amgueddfa Genedlaethol Cymru
Anabledd Cymru
Anabledd Dysgu Cymru
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Awtistiaeth Cymru
Barnardo’s Cymru
Brigâd Dân y Canolbarth a’r Gorllewin
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
CAFCASS Cymru
Canolfan Astudiaethau Cymunedol Cymwysedig
Canolfan Byd Gwaith
Canolfan Iechyd Cymru
Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru
Canolfannau Cyngor ar Bopeth
CBI Cymru
Cerebra
Childline Cymru
Chwarae Cymru
Chwarae Teg
Clybiau Plant Cymru Kids’ Clubs
Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Comisiwn Coedwigaeth
Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol
Comisiwn Hawliau Anabledd
Comisiynydd Plant Cymru
Cydgysylltwyr Dechrau'n Deg (22)
Cydgysylltwyr Strategaeth Gofal Plant (22)
Cyfarwyddwr Arweiniol Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (22)
Cyfarwyddwr Gweithredol Arweiniol Ymddiriedolaeth y GIG (14)
Cyfarwyddwr Gweithredol y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (22)
Cyfarwyddwyr Addysg (22)
Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (22)
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd (22)
Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar
Cymdeithas Cefnogi ME a CFS Cymru
Cymdeithas Clybiau Ieuenctid Cymru
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru
Cymdeithas Feddygol Prydain
Cymdeithas Genedlaethol Gofalwyr Maeth Cymru
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd – Cymru
Cymdeithas Iechyd Plant Cymunedol Prydain
Cymdeithas Lles Plant yn yr Ysbyty
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain
Cymdeithas Plant Dewi Sant
Cymdeithas Prydain ar gyfer Astudio ac Atal Cam-drin ac Esgeuluso Plant
Cymdeithas Syndrom Down
Cymdeithas y Seiciatryddion Addysgol
Cymunedau sy'n Gofalu
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru
Cyngor Chwaraeon Cymru
Cyngor Cyllido Addysg Uwch
Cyngor Gofal Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cyngor y Gwasanaethau Gwirfoddol
Cyswllt Ieuenctid Cymru
Cyswllt Teulu Cymru
Diabetes UK Cymru
Fairbridge Cymru
Ffederasiwn Busnesau Bach
Fforwm Gofal Cymru
Fforymau Ieuenctid (22)
Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru
Gwasanaethau Cymorth Canser Plant
Gwasanaethau Gwirfoddol Sirol (13)
Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (22)
Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol
Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed / Seiciatryddion Plant (3)
Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i Gymdeithas Lles Bechgyn a Merched
Gyrfa Cymru
Home-Start
Iechyd Plant yn y Gymuned
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
MENCAP Cymru
Menter Iaith Cymru
Mudiad Ysgolion Meithrin
Mynediad i Blant Duon a Phlant o Leiafrifoedd Ethnig ag Anableddau a/neu Salwch Cronig
NCH Cymru
Oxfam Cymru
Panel yr Esgob ar gyfer Amddiffyn Plant yr Eglwys yng Nghymru
Plant yng Nghymru
Prawf (Cymru a'r Rhanbarthau) (5)
Prif Gwnstabliaid Heddlu Cymru(5)

Prif Swyddogion Cynghorau Iechyd Cymuned (20)
Prif Weithredwyr y Byrddau Iechyd Lleol (22)
Prif Weithredwyr Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru (12)
Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol (22)
Rheolwyr y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc (22)
Rhwydwaith Cydlynu Gofal y DU
Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant
Rhwydwaith Gwrthdlodi Cymru
Rhwydwaith Maethu Cymru
Sefydliad Aneurin Bevan
Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall Cymru
Sefydliad Joseph Rowntree
Sefydliadau Gwirfoddol Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru (7)
Shelter Cymru
Swyddfa Ganolog Relate
Timau Troseddau Ieuenctid (16)
Tros Gynnal
TUC Cymru
Un Llais Cymru
Voices from Care
Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
Y Comisiwn Cyfle Cyfartal
Y Ddraig Ffynci
Y Gronfa Loteri Fawr
Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant
Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau
Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant
Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar
Ymddiriedolaeth AIDS Genedlaethol Cymru
Ymddiriedolaeth Cymru er Atal Cam-drin
Ymddiriedolaeth Frank Buttle
Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru
Yr Eglwys yng Nghymru